**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1110
Ein cyf/Our ref DET/03736/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

8 Ionawr 2021

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr ynghylch deiseb i adfer y cynllun Nofio am Ddim i bensiynwyr.

Er fy mod yn gwerthfawrogi fod gan rai unigolion bryderon o hyd am y mater hwn, cyd-destun ehangach y penderfyniad i newid y drefn Nofio am Ddim oedd yr arolwg annibynnol o'r fenter a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru.

Er i'r arolwg ddangos i'r fenter Nofio am Ddim weld cryn lwyddiant i ddechrau, nid oedd bellach yn ateb y gofyn ac nid oedd digon yn ei defnyddio. Hefyd, roedd angen ei halinio'n well â Gweledigaeth Chwaraeon Cymru ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a nodau llesiant Llywodraeth Cymru os oedd y fenter am gyrraedd y rheini ddylai elwa fwyaf arni.

Pobl ifanc a phobl dros 60 oed o ardaloedd difreintiedig yw blaenoriaeth y cynllun newydd. Mae Chwaraeon Cymru a Nofio Cymru'n gweithio gydag Awdurdodau Lleol a'u partneriaid i sicrhau bod rhaglen o sesiynau yn cael eu datblygu ym mhob pwll nofio cyhoeddus i ateb gofynion y ddau grŵp targed.

Wrth reswm, mae Covid-19 wedi amharu'n fawr ar y rhaglen ac er ei bod wedi'i hadfer i raddau ledled Cymru, gyda'r rhan fwyaf o ardaloedd yn darparu o leiaf rhai o'r cyfleoedd nofio y gellid disgwyl iddynt eu darparu ar gyfer pobl dros 60 oed, gwaetha'r modd mae'r cyfan erbyn hyn wedi dod i stop.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru'n parhau i weithio gyda'u partneriaid yn yr awdurdodau lleol i gael y cynllun yn ei ôl pan y bydd hynny'n bosibl o dan yr amodau ar gadw pellter cymdeithasol. Ystyrir bryd hynny wrth gwrs sut orau i gynnal y cynllun fel ei fod yn cyrraedd y gynulleidfa blaenoriaeth yn y ffordd fwyaf cyfleus fydd yn cael yr effaith fwyaf.

Yn ogystal â'r fenter Nofio am Ddim, mae Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid wedi bod yn edrych hefyd ar lansio y Cynnig 60 +: Y Cynllun Hamddena Egnïol. Y bwriad gwreiddiol oedd ei lansio ym mhob awdurdod lleol ym mis Ionawr, ond gan fod y canllawiau Covid-19 yn newid o hyd, byddwn yn newid yr amseriad yn ôl y gofyn. Pan gaiff ei lansio, bydd y cynllun yn creu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer pobl dros 60 yng Nghymru i fod yn gorfforol fywiog a byddwn yn defnyddio gwersi ei gyfnod o dri mis yn 2020-2021 i benderfynu sut i'w roi ar waith yn 2021-2022 a thu hwnt.

Gan obeithio bod y llythyr hwn wedi bod yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism